**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion o gyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror 2011 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2yp.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyngh S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngh L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngh G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngh W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngh M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Everett (Clerc); C Hanks a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); G Jones (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngh M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| P Claydon | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

1.1 Dim.

2 EITEMAU BRYS

2.1 Cytunodd y Cadeirydd i ychwanegu eitem ychwanegol ar yr agenda ar ddiwedd y cyfarfod – cyhoeddiad yr Adroddiad Gwella Blynyddol

3 COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15FED TACHWEDD 2010

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Dachwedd fel cofnod cywir yn amodol ar newid cychwyn paragraff 4.7 i "Roedd y Cynghorydd Owen o'r farn".

4 MATERION Y CODI

4.1 Doedd dim materion yn codi.

5 CRYNODEB O'R AMCANION GWELLA A LLEIHAU RISG AR GYFER 2011-12

5.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân adroddiad oedd yn crynhoi amcanion y Cynllun Lleihau Risg a Gwella ar gyfer 2011-12.

5.2 Yn ychwanegol i'r saith amcan oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Lleihau Risg/Gwella cyfredol, bydd amcanion ychwanegol yn codi'n uniongyrchol o'r penderfyniad i rewi'r gyllideb refeniw ar £32 miliwn ar gyfer y tair mlynedd nesaf. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân grynodeb o'r amcanion hynny ac egluro'r dull bydd y cynnydd yn erbyn yr amcanion hynny'n cael eu monitro. Bydd hyn yn digwydd drwy gyfarfodydd o'r Panel Gweithredol ac ymgymerir â monitro allanol fel rhan o Archwiliad Gwella Swyddog Archwilio Cymru.

5.3 Teimlai'r Clerc fod nifer o'r amcanion o natur partneriaeth ac y dylid eu cydnabod ar lefel rhanbarthol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sefydlwyd yn ddiweddar.

5.4 Parthed amcan 7, "mae sicrhau trefniadau cynllunio a rheoli Rheolaeth Parhad Busnes mor gynhwysfawr a diogel ag y gallant fod". Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau, yn ystod y tywydd drwg, roedd trefniadau Rheolaeth Parhad Busnes wedi eu profi i'r eithaf ac wedi gweithio'n dda iawn. Hefyd, roedd trefniadau ar y cyd gyda'r Heddlu oedd wedi deillio o'r cyfleuster Rheoli ar y Cyd wedi cael eu profi ac yn llwyddiannus iawn.

5.5 Gwnaeth y Cynghorydd Jeffares sylw ei fod yn falch iawn o ddarllen am gyfranogiad y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth helpu'r cyhoedd ac asiantaethau eraill yn ystod y tywydd drwg, a gofynnodd i'w deimladau gael eu trosglwyddo i staff.

5.6 **PENDERFYNWYD nodi'r Amcanion Gwella a gytunwyd arnynt o fewn Adran 4 o'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2009-12 ar gyfer blwyddyn 2011-12.**

6 CYLLIDEB 2011/12

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gadarnhau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2011-12 ac i gynghori'r Aelodau o sut fydd y gyllideb yn cael ei monitro, ei rheoli a'i hadrodd dros y tair blynedd nesaf gyda'r cyfyngiadau ychwanegol gymhwyswyd drwy'r strategaeth ostwng y gyllideb.

6.2 Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, trafodwyd y posibilrwydd o gael cyfarfod ychwanegol os fyddai unrhyw newidiadau eraill yn codi o setliad terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi derbyn cadarnhad gan y Trysorydd mai dim ond mân addasiadau oedd wedi cael eu gwneud i gyllideb y Cynulliad ac nad oeddynt yn effeithio cyllideb y Gwasanaeth Tân ac Achub. Felly, cadarnhawyd cyllideb sefydlog o £31,932,653, gydag arbedion o £802,000 eu hangen yn 2011/12 i gyflawni'r ffigwr hwn.

6.3 Bydd angen rheolaeth fanylach fyth ar y gyllideb i leihau'r risg o lithrant, a bydd Rheolwyr yn rheoli'r sefyllfa'n ofalus i sicrhau fod arbedion yn ymddangos erbyn digwydd y flwyddyn ariannol. Bydd unrhyw fater o bryder yn cael ei adrodd i'r Aelodau cyn gynted ag sy'n bosib yn ymarferol.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 MONITRO PERFFORMIAD EBRILL HYD RHAGFYR 2010

7.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth o weithgaredd a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru rhwng Ebrill a Rhagfyr 2010 a chymharu'r perfformiad gyda'r un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol. Amlygodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y pwyntiau canlynol:

7.2 Tanau cynradd – gostyngiad o 11% o gymharu gyda'r un cyfnod yn 2009/10.

7.3 Tanau eilaidd - cynnydd o 10% o gymharu gyda'r un cyfnod yn 2009/10. Hysbyswyd yr Aelodau gan yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân, yn ychwanegol i'r ymgyrch tân glaswellt, mae'r Gwasanaeth yn gwneud mwy o waith ataliol gyda'r gymuned ffermio a throseddwyr potensial. Mae'r ffigyrau sy'n cael eu casglu gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, yr heddlu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cael eu dadansoddi er mwyn targedu ardaloedd tueddol yn effeithiol. Er enghraifft, mae addysgwyr yn mynychu ysgolion mewn ardaloedd sy'n cael eu henwi fel ardaloedd risg ac yn pwysleisio'r peryglon o danau glaswellt. Yn ogystal â gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi derbyn arian gan y Cynulliad er mwyn hyfforddi diffoddwyr tân ar sut i daclo tanau mawr yn effeithiol a sut i'w diffodd mewn ffordd mwy effeithiol.

7.4.1 Marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi - yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, roedd 7 marwolaeth oherwydd tân damweiniol mewn cartrefi gyda tri marwolaeth mewn un digwyddiad. Pan gyhoeddwyd Adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tan yn 2007, cafwyd 10 marwolaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er nad yw'n ymddangos fod y ffigyrau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae'r ffactorau cyfrannol enwyd yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl yn dal yn berthnasol i'r mwyafrif o farwolaethau tân ac mae swyddogion yn hyderus, drwy weithio mewn partneriaeth a'r ymgyrch ymchwiliadau diogelwch tân yn y cartref, fod y Gwasanaeth yn gwneud popeth allai i atal marwolaethau tân ac addysgu'r cyhoedd am ddiogelwch tân.

7.4.2 Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau am ddau ddigwyddiad angheuol diweddar, un yn Nhreffynnon ac un ym Mae Colwyn. Roedd y ddau drigolyn yn oedrannus, wedi cael archwiliad diogelwch tân yn y cartref, yn hysbys i amrywiaeth o asiantaethau ac wedi eu cysylltu gyda Careline.

7.4.3 Mae'n ymddangos, mewn rhai achosion, hyd yn oed pan fo'r Gwasanaeth wedi darparu cymaint o gefnogaeth, cyngor ac ymyraethau ag sy'n bosib, fod rhai pobl yn parhau'n anghofus i'r neges diogelwch tân – cafodd hyn ei drafod gyda Swyddfa Archwiliad Cymru. Teimlai'r Cynghorydd A M Jones dylai fod categori ystadegol i gydnabod y fath achosion.

7.5 Fe nododd y Prif Swyddog Tân ei fod wedi ei galonogi gan berchnogaeth larymau mwg, oedd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2006. Roedd aelodau'n cytuno gyda'r farn hon ac fe gymeradwyodd y Cynghorydd T Roberts y swyddogion ar eu gwaith gydag asiantaethau eraill.

7.6 Roedd gan fwy o eiddo lle'r oedd tanau wedi digwydd larymau mwg nag yn y blynyddoedd blaenorol; roedd 15% o'r eiddo a fynychwyd heb larwm mwg. Roedd pryder am y nifer o eiddo oedd â larymau mwg nad oeddynt yn gweithio oherwydd bod y batris wedi eu cymryd allan o'r larwm.

7.7 Mynychu gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd – roedd y Gwasanaeth wedi newid ei bolisi o fynychu gwrthdrawiadau ac mae'n cael ei hysbysu o ddigwyddiadau pan fydd y gwasanaethau brys eraill wedi cael eu hysbysu ac yn anfon peiriant i'r olygfa'n awtomatig nawr. Nid yw hyn yn digwydd yn y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru ac felly o bersbectif Swyddfa Archwilio Cymru, yn effeithio cymariaethau ystadegau rhwng y tri Gwasanaeth Tân ac Achub.

7.8 Mae gostyngiad parhaol yn y nifer o larymau tân maleisus a fynychir. Mae cynnydd mawr yn y larymau ffug wneir heb fwriad drwg oherwydd y ffordd newydd o gofnodi galwadau.

7.9 Roedd larymau ffug o Larymau Tân Awtomatig mewn eiddo annomestig – lawr 31% - mae timau diogelwch tân yn parhau i weithio gyda'r safleoedd sy'n achosi'r problemau i sicrhau eu bod yn edrych ar ôl eu systemau'n gywir. Sylwodd y Prif Swyddog Tan fod gostyngiad cyson mewn ffigyrau ei angen i brofi fod y gwaith yn cael effaith gadarnhaol.

7.10 Salwch shifft/dyddiau - collwyd 0.62 yn llai o ddyddiau/shifftiau oherwydd salwch y gweithiwr o gymharu gyda 2009/10 - cafwyd gwelliant yn y salwch tymor hir a thymor byr. Hysbysodd y Prif Swyddog Tan Simmons yr Aelodau fod llawer o waith yn cael ei wneud yn yr ardal hon fel rhan o safon aur iechyd galwedigaethol. Yn ogystal ag iechyd corfforaethol, mae cynlluniau yn eu lle i ddarparu cefnogaeth i staff megis cyfarfod wedi digwyddiad critigol a chynllun cefnogi cyfoedion sy'n gallu helpu i ddelio gydag ystod eang o faterion sy'n cael effaith niweidiol ar iechyd a lles staff. Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion tân wedi cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud fel arfer da.

7.11 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 CYFLWYNIAD AR REOLI'R FFLYD

8.1 Mynychodd Dave Bond, Rheolwr y Fflyd y cyfarfod i roi cyflwyniad i'r Aelodau yn amlinellu gwaith Adran y Fflyd.

8.2 Mae Adran y Fflyd a'r cyfleuster cynnal a chadw wedi ei lleoli'n Nghyffordd Llandudno, ac yn ychwanegol, mae ganddo gerbydau gweithdy symudol i wasanaethau ac atgyweirio'r fflyd yn y gorsafoedd. Mae'r adran yn gyfrifol am holl agweddau'r fflyd, gan gynnwys gwasanaeth ar alwad llawn amser ac ers 2010, mae Rheolwr y Fflyd wedi bod yn gyfrifol am reoli tanwydd a'r defnydd o gerbydau.

8.3 Mae gan yr Adran gyllideb refeniw a chyfalaf fel a ganlyn:

- Cyllideb refeniw (atgyweirio a chynnal a chadw) - £350k
- Cyllideb refeniw (tanwydd ag olew) - £334k
- Cyllideb gyfalaf rhwng £1m-£5m.

8.4 Mae'r Adran yn ymdrechu i wneud arbedion flwyddyn ar flwyddyn ac yn gweithio ar y cyd gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru er mwyn gwneud y gorau o arian.

8.5 Mae'r amgylchedd yn hollbwysig i waith yr Adran gyda 70% o'r peirannau'n meddu ar ffilterau i'r pibelli gwacau sy'n gollwng aer glân yn unig; mae cyfyngiadau cyflymder wedi eu gosod ar bob cerbyd o'r fflyd (ers 2003) sy'n arbed 8% ar economi tanwydd a hyrwyddo enghraifft o ddiogelwch ar y ffyrdd cadarnhaol i ddefnyddwyr eraill ar y ffordd. Mae gan yr Adran bolisi olew cerbyd, ddatblygwyd i leihau gwastraff ac mae trywyddion wedi cael eu gosod ym mhob cerbyd i ostwng unrhyw siwrnai ddiangen a gwella argaeledd cerbydau.

8.6.1 Hysbysodd Dave Bond yr Aelodau o'r heriau oedd yn wynebu'r Adran yn y dyfodol, gan gynnwys:

8.6.2 Gall gerbydau gael hyd oes o 20 mlynedd ac mae'n anodd rheoli addasiad y gerbydau hŷn i ddisgwyliadau newydd megis gweithlu amrywiol, cynyddu llwyth gwaith mwy o offer.

8.6.3 Mae peirannau tân yn cario mwy o offer, sydd angen siasis trymach/mwy i ymdopi gyda'r gofyniad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cadw maint y cerbydau yn gryno.

8.6.4 Pwysau refeniw – tra bod arbedion wedi cael eu cynhyrchu, mae llawer o hyn o arbedion effeithlonrwydd neu ffyrdd newydd o weithio. Mae prisiau tanwydd yn cynyddu ac os byddant yn parhau i godi bydd effaith ddifrifol ar gyllideb y Gwasanaeth.

8.7 Awgrymodd y Cynghorydd T Roberts fod y Panel Gweithredol yn ymweld â gweithdy'r fflyd i weld y gwaith sy'n cael ei wneud yno.

8.8 **PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad.**

EITEM FRYS

9 CYHOEDDI ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

9.1 Cyflwynodd Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, yr adroddiad a gyhoeddwyd ar wefan yr Archwiliwr Cyffredinol ar 31ain Ionawr.

9.2 Mae'r adroddiad yn ofyniad blynyddol newydd ar Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn dilyn cyflwyniad y Mesur Llywodraeth Leol. Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi adroddiad am ba mor dda mae'r awdurdodau cyhoeddus yn gwella eu gwasanaethau.

9.3 Mae'r adroddiad wedi awgrymu dylai'r Awdurdod:

- "ddatblygu ymhellach ei amcanion gwella a pherfformiad cysylltiedig â mesurau canlyniadol er mwyn gallu adnabod a gwerthuso effaith ei weithgaredd ar ei gymuned; a
- Pharhau i flaenoriaethau gweithgareddau diogelwch ar y ffyrdd er mwyn deall sut mae'n chwarae ei ran o wneud ffyrdd o fewn ei ardal yn ddiogelwch."

9.4 Cydnabyddai'r Aelodau mai cynigion oedd y rhain yn hytrach nag argymhellion ond roeddynt yn bryderus am yr ail bwynt bwled gan fod rôl yr Awdurdod wrth wneud ffyrdd yn ddiogelach yn rôl gyfrannol, nid yn rôl gynradd. Cytunwyd i nodi yn ymateb yr Awdurdod i Swyddfa Archwilio Cymru fod Aelodau yn bryderus fod yr Awdurdod yn cael ei beirniadu yn y dyfodol am ardal nad oes ganddi gyfrifoldeb cynradd drosti.

9.5 Cadarnhaodd y clerc dylai'r adroddiad, ynghyd â'r ymateb gael ei gyflyno i gyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Mawrth er gwybodaeth.

9.6 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad. Ac i'r adroddiad ac ymateb ysgrifenedig yr Awdurdod i LICC cael ei gyflwyno o gyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Mawrth.**